Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

Cwestiynau cyffredin

Diweddarwyd Chwefror 2026

Trosolwg a chyd-destun polisi

1. **Pa rôl mae AGC yn ei chwarae wrth ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal?**

AGC sy'n gyfrifol am reoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal yng Nghymru. Yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, bydd AGC (gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru) yn rhoi'r newidiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 sy'n deillio o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (‘y Ddeddf’) ar waith.

2. **Beth yw ystyr darparwr ‘nid-er-elw’?**

I gymhwyso yn ddarparwr nid-er-elw o dan y Ddeddf, rhaid i sefydliad fodloni'r meini prawf canlynol (oni bai ei fod yn awdurdod lleol):

- Rhaid i brif ddiben y sefydliad ymwneud â lles plant, neu fudd cyhoeddus arall a allai fod wedi cael ei nodi gan Weinidogion Cymru.
- Rhaid i'r sefydliad gael ei strwythuro fel un o'r endidau cyfreithiol canlynol:
    - Cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau
    - Sefydliad corfforedig elusennol
    - Cymdeithas gofrestredig elusennol
    - Cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.

3. **A all darparwyr er-elw barhau i weithredu yng Nghymru o 1 Ebrill 2026?**

Gallant, ond bydd cyfyngiadau sylweddol arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i raddol ddileu elw o wasanaethau gofal cymdeithasol plant fel rhan o'i diwygiadau ehangach o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (“y Ddeddf”).

Dyddiadau a newidiadau allweddol:

- **O 1 Ebrill 2026**:
  Rhaid i ddarparwyr newydd sy'n cofrestru neu'n amrywio eu cofrestriad ag AGC i ddarparu cartrefi plant, gwasanaethau maethu neu wasanaethau llety diogel, fodloni'r gofynion nid-er-elw. Ni all darparwyr presennol ychwanegu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad at eu cofrestriad nac ychwanegu lleoedd

newydd lle caiff gwasanaethau plant o dan gyfyngiad eu darparu oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf nid-er-elw.

- **O 1 Ebrill 2027**:
  Caiff darparwyr er-elw presennol eu gwahardd rhag ehangu. Ni fydd hawl ganddynt i wneud y canlynol:
  - Ychwanegu gwelyau newydd at gartrefi plant sydd eisoes wedi cofrestru
  - Cymeradwyo gofalwyr maeth newydd
- **O 1 Ebrill 2030**:
  Ni chaiff awdurdodau lleol yng Nghymru osod plant yng ngofal darparwyr er-elw ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, fel:
  - Nid oes lleoliad nid-er-elw addas ar gael
  - Er mwyn cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd

Mewn achosion o'r fath, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gael cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru drwy broses cymeradwyo lleoliadau atodol.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol a nodir mewn rheoliadau y caiff darparwyr er-elw dderbyn lleoliadau gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Beth am lety diogel?

Er bod y polisi hefyd yn berthnasol i wasanaethau llety diogel, nid oes unrhyw ddarparwyr er-elw wedi'u cofrestru yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd y ddeddfwriaeth yn atal unrhyw ddarparwyr er-elw rhag cofrestru neu amrywio eu cofrestriad er mwyn cynnig llety diogel yn y dyfodol.

4. Beth yw goblygiadau'r ddeddfwriaeth newydd i wasanaethau llety â chymorth i bobl ifanc 16+?

Mae'r ‘Ddeddf’ yn cyflwyno proses drosi raddol i fodel nid-er-elw i sefydliadau a gaiff eu diffinio yn “wasanaethau plant o dan gyfyngiad.” Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cartrefi gofal i blant
- Asiantaethau maethu
- Llety diogel

Ni fydd y newid hwn i'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar wasanaethau cymorth i bobl ifanc 16+ yn unig.

5. **A yw'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i ofal seibiant ar gyfer plant anabl nad ydynt yn derbyn gofal?**

Os yw'r gwasanaeth wedi'i gofrestru fel cartref gofal i blant, mae'n debygol bod y ddeddfwriaeth yn berthnasol. Os yw'r gwasanaeth cartref gofal hefyd yn gweithredu fel ysgol ac nad yw'n darparu gwasanaeth i blant sy'n derbyn gofal (neu os yw'n darparu ar gyfer mwy o blant nad ydynt yn derbyn gofal na phlant sy'n derbyn gofal) yna ni fydd yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth. Bydd AGC yn asesu fesul achos.

6. **Faint o ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd a fydd yn cael eu cynnwys o dan ddiffiniad gwasanaeth plant o dan gyfyngiad?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data bob chwe mis. Gweler yr adroddiad diweddaraf ar wefan Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal: trosglwyddo i fodel nid-er-elw Llywodraeth Cymru.

Cofrestru ac ailsefydlu

Y broses cofrestru amserlenni

7. **A fydd proses gofrestru AGC yn newid ar gyfer darparwyr nid-er-elw newydd?**

Ni fydd y gofynion cofrestru craidd yn newid ar gyfer newydd-ddyfodiaid nid-er-elw i'r farchnad ond pan fydd cais yn ymwneud â gwasanaeth sy'n un o'r “gwasanaethau plant o dan gyfyngiad” (gweler cwestiwn 5 isod), byddwn yn gofyn am ddogfennau ychwanegol a fydd yn dangos y math o ymgymeriad (e.e. cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau) ac yn dangos amcanion a dibenion y sefydliad e.e. yr Erthygl Cymdeithasu a'r Memorandwm Cymdeithasu.

Rydym yn awyddus i leihau'r baich ailgofrestru ar wasanaethau sydd eisoes wedi cofrestru ac sydd am ailsefydlu eu busnes fel endid cyfreithiol nid-er-elw drwy ofyn yn unig am y wybodaeth y mae ei gwir angen arnom am y newid i'r model busnes a chael cadarnhad o amcanion a diben.

Byddwn yn diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf, unwaith y bydd y Rheoliadau cysylltiedig ar waith yn ffurfiol, a fydd yn digwydd ar ddechrau 2026 yn ôl pob tebyg.

8. **Beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ailgofrestru ag AGC ar gyfer gwasanaethau sy'n ailsefydlu fel endid nid-er-elw newydd?**

Mae AGC yn anelu at gwblhau'r broses ailgofrestru o fewn ei hamserlen 14 wythnos safonol. Fodd bynnag, gall fod yn gynt os na fydd y gwasanaeth wedi newid fawr ddim a bod gan AGC wybodaeth fanwl am y darparwr.

9. **Fel cwmni sydd eisoes yn gwmni nid-er-elw (e.e. cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant), a fyddai disgwyl i ni fynd drwy'r un broses ailgofrestru?**

Bydd angen i gwmnïau nid-er-elw presennol ‘amrywio eu cofrestriad’ er mwyn osgoi'r amodau a gaiff eu gosod ar ddarparwyr o 1 Ebrill 2027. Rhoddir hyn ar waith i ddarparwyr gadarnhau eu hendid cyfreithiol ac eitemau/dibenion drwy gyflwyno dogfennau ond ni fydd yn rhaid iddynt ailgofrestru'n llawn.

10. **A yw AGC wedi pennu dyddiad y disgwylir ddechrau derbyn ceisiadau gan ddarparwyr sy'n dymuno ailsefydlu fel un o'r pedwar model cymeradwy?**

Gall darparwyr ddechrau'r broses nawr gan ein bod eisoes wedi gweld enghreifftiau lle mae darparwyr wedi newid eu hendid cyfreithiol. Fodd bynnag, ni fydd fersiwn byrrach o'r ffurflen gais ar gael tan 1 Ebrill 2026. Hefyd, bydd angen i unrhyw sefydliad sydd eisoes wedi cofrestru fel darparwr nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 amrywio ei gofrestriad fel y disgrifiwyd uchod.

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau a chyflawnrwydd

11. **Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau er elw?**

Rhaid cyflwyno pob cais gan sefydliadau nad ydynt yn un o'r pedwar model a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru i AGC erbyn 31 Mawrth 2026. Mae hyn yn berthnasol i geisiadau i gofrestru gwasanaeth neu leoliad plant o dan gyfyngiad (llety diogel/cartref gofal i blant/gwasanaeth maethu) neu i amrywio cofrestriad presennol er mwyn ychwanegu un o'r gwasanaethau neu leoliadau hyn.

12. Beth fydd yn digwydd i geisiadau a gyflwynir ar ôl 31 Mawrth 2026?

Ar ôl y dyddiad hwn, bydd rhaid i unrhyw gais newydd neu gais a gaiff ei ailgyflwyno fodloni gofynion deddfwriaethol newydd a chaiff ei wrthod os na fydd yn bodloni statws nid-er-elw.

13. Beth sy'n cyfrif fel cais cyflawn?

Dim ond ceisiadau cyflawn a dderbynnir erbyn 31 Mawrth 2026 fydd yn cael eu hystyried. Rhaid i'ch cais gynnwys pob elfen allweddol megis gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Ardystiad Rheolaeth Adeiladu a Chaniatâd Cynllunio. Mae Canllaw i Gofrestru AGC-Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Atodiad 8) yn cynnwys y rhestr lawn o'r dogfennau gofynnol.

14. Beth fydd yn digwydd os bydd fy nghais yn cael ei ddychwelyd am fod dogfennau ar goll?

Os bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd am fod elfennau allweddol ar goll, ni fydd yn cyfrif fel cais wedi'i gyflwyno at ddibenion y dyddiad cau. Rhaid i chi ailgyflwyno cais llawn, cyflawn cyn 31 Mawrth 2026.

15. Pryd ddylwn i gyflwyno fy nghais?

Rydym yn argymell y dylech gyflwyno eich cais cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn rhoi digon o amser ar gyfer gwiriadau diwydrwydd dyladwy AGC ac yn rhoi cyfle i chi fynd i'r afael ag unrhyw broblemau â'ch ffurflen gais. Bydd ceisiadau a dderbynnir ar 31 Mawrth 2026 ond yn ddilys os byddant wedi'u cwblhau.

Prosesu a chofrestru

16. A yw'n bwysig pryd y gwneir penderfyniad ynghylch fy nghais ar ôl ei gyflwyno?

Nac ydy. Os byddwch wedi cyflwyno eich cais yn llwyddiannus cyn hanner nos ar 31 Mawrth 2026, nid yw'n bwysig pryd y gwneir penderfyniad yn ei gylch. Mae darpariaethau arbedion trosiannol yn galluogi AGC i ymdrin â'r cais o dan reoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) nad ydynt wedi newid, hyd yn oed os bydd y cofrestriad yn cael ei gwblhau ar ôl 1 Ebrill 2026.

17. Beth os bydd fy nghais yn cael ei wrthod ac rwy'n gwneud apêl?

Os byddwch yn cyflwyno cais yn llwyddiannus erbyn 31 Mawrth 2026 a bod arolygydd wedyn yn gwrthod dyfarnu cofrestriad, gallwch wneud apêl i AGC neu yn ddiweddarach i'r Tribiwnlys. Os bydd eich apêl yn llwyddiannus, byddwch yn parhau i gael eich trin o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) bresennol ar adeg y cofrestriad, am eich bod wedi cyflwyno eich cais gwreiddiol erbyn y dyddiad cau.

18. A fydd unrhyw gyfyngiadau pan fyddaf wedi cofrestru?

Bydd. Os a phan y byddwch yn cael cofrestriad, byddwch yn destun cyfyngiadau a ddaw i rym mewn ffordd raddol gan ddechrau ar 1 Ebrill 2026, a fydd yn cyfyngu ar unrhyw ehangu pellach.

Trefniadau trosiannol

19. I bwy y mae'r trefniadau trosiannol yn berthnasol?

Mae'r dyddiad arbedion trosiannol ond yn gymwys i'r rheini sydd am gofrestru neu amrywio gwasanaeth neu leoliad o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) bresennol.

20. Beth os nad wyf yn ychwanegu gwasanaeth na lleoliad newydd?

Os nad ydych yn ychwanegu gwasanaeth na lleoliad newydd, byddwch yn mynd yn wasanaeth plant o dan gyfyngiad ar 1 Ebrill 2026.

Gofynion cofrestru a senarios penodol

21. A oes angen i mi gyflogi staff cyn gwneud cais?

Nid oes angen i chi gyflogi staff na rheolwr cofrestredig cyn gwneud cais. Fodd bynnag, ni fyddwn yn dyfarnu cofrestriad nes y bydd rheolwr sy'n meddu ar y cymwysterau priodol ac sydd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cael ei benodi.

22. A oes disgwyl i ddarparwr er-elw drosglwyddo ei holl ofalwyr i'r endid nid-er-elw newydd ar unwaith neu a all y ddau endid redeg ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn rheoli'r cyfnod pontio?

Byddai modd i ddarparwr redeg y ddau endid ochr yn ochr am gyfnod a fyddai'n rhoi cyfle i symud gofalwyr maeth yn raddol i'r darparwr nid-er-elw. Caiff manylion y newid i'r endid nid-er-elw eu pennu yn waith cynllunio busnes darparwyr unigol.

23. Os oes gennyf gartref gofal segur i blant fel rhan o'm cofrestriad ag AGC ac fy mod am ailagor y gwasanaeth, a fydd angen iddo fod yn wasanaeth nid-er-elw?

P'un a yw gwasanaeth yn segur ai peidio, os bydd y gwasanaeth wedi'i gofrestru ar yr adeg y daw'r darpariaethau i rym, yna bydd yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol Atodlen 1A a gall weithredu heb gyfyngiadau.

24. Beth os ydw i'n gweithredu cartref gofal i oedolion a phlant?

Os yw eich cartref yn gofalu'n bennaf am blant a bod y mwy o blant nag oedolion fel arfer, yna byddai'n debygol o gael ei ystyried yn gartref plant a byddai'r cyfyngiadau ar ddarparwyr cartrefi plant er-elw yn gymwys iddo.

Rydym yn cydnabod mewn nifer bach o achosion y gall fod gwasanaethau sy'n gofalu am nifer cyfartal o blant ac oedolion, neu y gall eu niferoedd amrywio ar adegau penodol. Yn y pen draw, bydd hyn yn dibynnu ar brif ddiben y gwasanaeth a ph'un a ystyrir ei fod yn gofalu'n bennaf am blant neu am oedolion. Mewn rhai achosion, bydd angen i Arolygiaeth Gofal Cymru wneud dyfarniad ynghylch hyn – bydd yn gweithio gyda darparwyr unigol i wneud penderfyniad yn hyn o beth pan na fydd yn hollol glir o'u gwybodaeth gofrestru.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd darparwyr am addasu eu polisïau derbyn i sicrhau eu bod yn osgoi'r risg o redeg gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant. Mewn achosion eraill, efallai y bydd darparwyr am ailsefydlu eu hunain fel un o'r cyrff nid-er-elw er mwyn eu galluogi i weithredu “yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant” am gyfnodau pan fo angen.

Awdurdodau lleol yn gweithio gyda landlordiaid

25. Pryd y bydd angen i awdurdod lleol a darparwr gofal gofrestru ar y cyd ag AGC?

O dan Atodlen 1, paragraff 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, diffinnir gwasanaeth cartref gofal fel gwasanaeth sy'n darparu llety ynghyd â gofal nyrsio neu ofal i berson oherwydd ei fod yn agored i niwed neu oherwydd ei anghenion.

Lle mai'r awdurdod lleol yw'r tenant sy'n rhentu eiddo gan landlord ac yn comisiynu gofal gan ddarparwr gofal ar wahân, ystyrir bod y ddau barti yn darparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig ar y cyd - gyda'r awdurdod lleol yn darparu'r llety a'r darparwr gofal yn darparu'r gofal a'r cymorth.

Yn y sefyllfa hon, rhaid i'r awdurdod lleol a'r darparwr gofal gofrestru ag AGC ar y cyd.

26. Sut y gellir osgoi cofrestru ar y cyd yn yr amgylchiadau hyn?

Er mwyn osgoi'r angen i gofrestru ar y cyd, rhaid mai'r darparwr gofal yw'r tenant sy'n dal y les â'r landlord.

O dan y trefniant hwn, y darparwr gofal sy'n gwbl gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth rheoleiddiedig ac felly:

- Bydd yn cofrestru ag AGC ar ei ben ei hun, ac
- Yn gwbl gyfrifol am fodloni holl ofynion y fframwaith arolygu (Llesiant, Gofal a Chymorth, Arweinyddiaeth a Rheolaeth a'r Amgylchedd).

Os bydd AGC yn cyhoeddi unrhyw Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth, y darparwr cofrestredig sy'n gwbl gyfrifol am fynd i'r afael â'r rhain, a bydd yn rhaid iddo weithio'n uniongyrchol gyda'i landlord i ddatrys unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r amgylchedd neu'r adeilad.

27. A oes unrhyw gyfyngiadau ar ddarparwyr er elw mewn perthynas â'r trefniadau hyn?

Oes. O 1 Ebrill 2026, ni fydd darparwyr er elw gwasanaeth plant o dan gyfyngiad bellach yn gallu ychwanegu gwasanaeth neu leoedd ychwanegol i'w cofrestriad, p'un a ydynt yn gweithredu ar eu pen eu hunain neu fel rhan o drefniant ar y cyd.

Modelau cyfreithiol a llywodraethu

28. Pwy all weithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol o dan bob un o'r pedwar model nid-er-elw?

Byddai hyn yn dibynnu ar y model - ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, neu aelodau. Bydd AGC yn parhau i asesu cymhwysedd yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod y broses gofrestru. Darllenwch adran 4 o Ganllawiau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar Gofrestru i gael rhagor o wybodaeth.

29. A all Unigolyn Cyfrifol neu gyfarwyddwyr eraill (e.e. Adnoddau Dynol, cyllid) gael cyflog o dan y modelau nid-er-elw? Beth a gaiff ei ystyried fel cyflog 'rhesymol'?

Gallant, caiff cyflogau eu caniatáu os byddant yn rhesymol ac yn dryloyw ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer y model penodol. Mae'r rheoleiddwyr ariannol sy'n goruchwylio'r pedwar model nid-er-elw a ganiateir, e.e. y Comisiwn Elusennau, yn darparu canllawiau ar hyn.

30. A fydd Llywodraeth Cymru neu AGC yn gosod canllawiau cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr cwmnïau buddiant cymunedol ac Unigolion Cyfrifol?

Na, ni fydd AGC na Llywodraeth Cymru yn gosod canllawiau cyflog. Mae gan reoleiddwyr ariannol presennol ofynion a chanllawiau ar hyn eisoes.

31. A all cyflogai y telir cyflog iddo weithredu fel ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr ar gyfer model elusennol hefyd?

Gallai, ond dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig. Rhaid i ddogfennau llywodraethu'r elusen nodi hyn, ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn ofynnol cael caniatâd y Comisiwn Elusennau. Rhaid i'r trefniant fod er budd pennaf yr elusen, a rhaid rhoi camau diogelu cadarn ar waith i reoli achosion o wrthdaro buddiannau, gan gynnwys:

- Rhaid i'r cyflogai-ymddiriedolwr ddatgan ei ddiddordeb.
- Rhaid iddo beidio ag ymuno mewn trafodaethau a phenderfyniadau am delerau ei gyflogaeth ei hun.
- Rhaid i'r elusen gofnodi penderfyniadau mewn ffordd dryloyw i sicrhau bod y taliad yn rhesymol

Darllenwch ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar y rheolau mewn perthynas â thalu ymddiriedolwr.

32. A fyddai darparwr nid-er-elw sy'n gwneud cais i gofrestru ac sy'n is-gwmni i gwmni arall sy'n gwmni er-elw yn cydymffurfio o hyd â'r diffiniad o ddarparwr nid-er-elw o dan Y Ddefdd?

Byddai. Gallai darparwr o'r fath gyd-fynd o bosibl â'r diffiniad o ddarparwr "nid-er-elw" o dan adran 6A(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”). Fodd bynnag, rhaid iddo hefyd fodloni'r prawf person addas a phriodol o dan adran 9A(1) o Ddeddf 2016.

Fel rhan o'r prawf hwn, rhaid ystyried a oes unrhyw drefniadau ariannol sydd ar waith yn afresymol neu'n anghymesur o dan yr holl amgylchiadau, a ph'un a allent danseilio gallu'r darparwr i gyflawni ei amcanion a'i ddibenion craidd, y mae'n rhaid iddynt ymwneud â lles plant. Yn hollbwysig, mae'r prawf yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw "berson perthnasol" a gaiff ei ddiffinio yn adran 9(7)(e) i gynnwys unrhyw berson o fewn yr un grŵp o gwmnïau, lle ceir strwythur perchnogaeth neu reolaeth cyffredin.

Felly, hyd yn oed os yw'r darparwr yn ddarparwr nid-er-elw, rhaid iddo sicrhau nad yw ei drefniadau ariannol yn arwain at unrhyw fudd amhriodol i unrhyw berson perthnasol o fewn ei grŵp corfforaethol. Nid p'un a yw'r endid sy'n cael budd yn endid er-elw neu'n endid nid-er-elw sy'n bwysig ond yn hytrach p'un a yw'r trefniant yn afresymol neu'n anghymesur o dan yr holl amgylchiadau ac a allai'r trefniant amharu ar allu'r darparwr i ddarparu gwasanaethau yn unol â'i amcanion a'i ddibenion.

Bydd angen i unrhyw rai o gyfarwyddwyr yr is-gwmni nid-er-elw a benodir gan y rhiant-gwmni er-elw ddangos eu bod, yn rhinwedd eu rôl fel cyfarwyddwyr yr is-gwmni, yn arfer eu pwerau fel cyfarwyddwyr yn gyfan gwbl er mwyn hyrwyddo dibenion yr is-gwmni.

Cymorth a chanllawiau

33. Pa gymorth sydd ar gael i ddarparwyr sy'n ailsefydlu fel un o'r modelau nid-er-elw a ganiateir?

Gall AGC gynnig cyngor ar y broses gofrestru

Gall Cwmpas roi cyngor ar sut i sefydlu fel un o'r pedwar model y mae'r Ddeddf yn caniatáu iddynt fod yn ddarparwyr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.

34. Ble y gallaf gael cymorth â'm cais?

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y wybodaeth hon, anfonwch e-bost atom ar **CIWRemoval@llyw.cymru.** Rydym yma i roi cymorth ac arweiniad ac rydym yn fwy na pharod i gyfarfod â chi i drafod eich amgylchiadau unigol.

Gallwch hefyd ddod o hyd i'r manylion llawn am y ddeddfwriaeth a'r broses o ailgofrestru fel model nid-er-elw ar dudalen gwe Llywodraeth Cymru **Newid i fodelau gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru**

35. Pryd bydd y canllawiau ar gyfer darparwyr er-elw sydd am ailsefydlu fel endidau nid-er-elw yn cael eu cyhoeddi?

Byddwn yn diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynir gan 'y Ddeddf' ar ôl i'r Rheoliadau gael eu cyhoeddi ar ddechrau 2026.

I gefnogi darparwyr sy'n ystyried ailsefydlu eu hunain fel un o'r modelau nid-er-elw a ganiateir o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cwmpas i gynnig cyngor a chymorth ymarferol wedi'i deilwra. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar ailstrwythuro, llywodraethu a dewis y ffurf gyfreithiol fwyaf addas. Gall darparwyr gael mwy o wybodaeth a chymorth drwy fynd i wefan Cwmpas.

Mae gan AGC hefyd dudalen we benodol ar Ddileu elw o ofal plant. Caiff rhagor o wybodaeth ei hychwanegu at y dudalen hon dros y misoedd nesaf.

Mae tudalen Newid i fodelau gofal nid-er-elw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru Llywodraeth Cymru yn cynnwys mwy o wybodaeth..

36. A oes angen talu i ddefnyddio Cwmpas?

Nac oes, caiff y gwasanaeth ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae ar gael am ddim i ddarparwyr.

37. A yw Cwmpas yn caniatáu defnyddio priswyr ar gyfer y prisiannau cychwynnol?

Ydy, ond mae fframwaith ffurfiol wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd. Gellir trefnu prisiannau fesul achos.

38. Beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ailgofrestru ag AGC ar gyfer gwasanaethau sy'n ailsefydlu fel endid nid-er-elw newydd?

Mae AGC yn anelu at gwblhau'r broses ailgofrestru o fewn ei hamserlen 14 wythnos safonol. Fodd bynnag, gall fod yn gynt os na fydd y gwasanaeth wedi newid fawr ddim a bod gan AGC wybodaeth fanwl am y darparwr.

39. Beth yw amcangyfrif y gost ar gyfer ailsefydlu fel model nid-er-elw?

Mae'r costau'n amrywio'n eang yn dibynnu ar strwythur a gwasanaethau'r sefydliad.

Arolygu, monitro a gorfodaeth

40. A fydd y meini prawf arolygu yn newid ar gyfer gwasanaethau plant nid-er-elw?

Caiff pob gwasanaeth ei arolygu o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i AGC gynnwys agweddau newydd ar 'y Ddeddf' fel monitro trefniadau ariannol afresymol ac anghymesur.

41. A fydd AGC yn monitro'r lefel gydymffurfiaeth â'r statws nid-er-elw yn barhaus?

Bydd, gall AGC wneud hyn drwy ddatganiadau blynyddol a chydweithio â rheoleiddwyr ariannol. Gall datganiadau ffug arwain at roi camau gorfodi ar waith. Mae'n bosibl y bydd AGC yn cyflogi cyfrifwyr arbenigol er mwyn helpu i asesu unrhyw bryderon a godir.

42. Beth fydd yn digwydd os caiff darparwr ei ganfod yn cael budd ariannol mewn ffordd sy'n tanseilio ei statws nid-er-elw?

Gall AGC ymchwilio a chymryd camau gorfodi, a allai gynnwys canslo cofrestriad.